

**Adroddiad Ymgynghoriad  
Canllawiau Cynllunio Atodol**

Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro  
Cynllun Datblygu Lleol 1 Cyngor Sir Penfro

Isod, rhestrir y dogfennau canllawiau yr ymgynghorwyd yn eu cylch. Roedd un ohonynt yn ddogfen ganllawiau a luniwyd ar y cyd â Chyngor Sir Penfro.

Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt – Lluniwyd y canllawiau ar y cyd â Chyngor Sir Penfro
Glo – Ansefydlogrwydd Tir
Colli Gwestai a Thai Llety
Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol
Diogelu Parthau Mwynau
Ardal Gadwraeth Angle
Ardal Gadwraeth Caerfarchell
Ardal Gadwraeth Ynys Bŷr
Ardal Gadwraeth Aber-bach
Ardal Gadwraeth Maenorbŷr
Ardal Gadwraeth Trefdraeth
Ardal Gadwraeth Porthclew
Ardal Gadwraeth Porthgain
Ardal Gadwraeth Saundersfoot
Ardal Gadwraeth Solfach
Ardal Gadwraeth Tyddewi
Ardal Gadwraeth Dinbych-y-pysgod
Ardal Gadwraeth Trefin

Mae'r ddogfen ganllawiau sy'n ymwneud ag Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt yn ymdrin â Sir Benfro i gyd. Mae'r gweddill yn ymdrin â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn unig.

Yn gynnar ym mis Ionawr 2022, rhoddwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar waith. Daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ar 15 Ebrill 2022. Cyhoeddwyd hysbysiad ffurfiol yn y Western Telegraph a'r Pembrokeshire Herald er mwyn hysbysebu'r ymgynghoriad, a hefyd anfonwyd datganiad i'r wasg i'r perwyl hwnnw at bapurau lleol a gorsafodd radio yn yr ardal. Rhoddwyd copïau electronig ar ein gwefannau ac roedd copïau papur ar gael ym Mhencadlys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn Llanion yn Noc Penfro, a hefyd yn Oriel y Parc, Tyddewi. Daeth y cyfnod ar gyfer ymgynghori ynglŷn â'r holl ddogfennau i ben am 4.30pm at 15 Ebrill 2022. Cynhwyswyd atgoffâd o'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau mewn datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd ganol mis Mawrth 2022. Anfonwyd e-bost neu lythyr ymgynghori at ymgynghoreion a oedd wedi'u rhestru yng nghronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol.

Cydnabuwyd yr holl ymatebion. Mae'r ymatebion hyn ar gael yn gyhoeddus (ac eithrio sylwadau'n ymwneud â'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Golli Gwestai, yr adroddir amdanynt yn ddiweddarach) - gweler y dolenni isod.

Gellir gweld adroddiad o ymatebion swyddogion i ymgynghoriad y canllawiau cynllunio atodol trwy glicio ar y ddolen ganlynol:

Cyfarfod Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022  
[https://www.pembrokeshirecoast.wales/wp-content/uploads/2022/10/31\\_22-Report-of-Cons-SPG.pdf](https://www.pembrokeshirecoast.wales/wp-content/uploads/2022/10/31_22-Report-of-Cons-SPG.pdf)

Cyfarfod Cabinet Cyngor Sir Penfro a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2022.  
<https://mgenglish.pembrokeshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=281&MId=5506&Ver=4>

Cytunodd cyfarfod Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chabinet y Cyngor Sir y dylid diwygio'r canllawiau yn unol ag argymhellion y swyddogion, a nodir yn yr adroddiad.

Mae'r Canllawiau a fabwysiadwyd wedi'u lanlwytho ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol:

[Canllawiau Cynllunio Atodol \(CDL2\) – Parc Genedlaethol Arfordir Penfro](#)

Ac ar wefan y Cyngor Sir:

[Canllawiau Cynllunio Atodol y Cynllun Datblygu Lleol – Cyngor Sir Penfro](#)